# Canllaw ar Baratoi Adroddiad ar Arolwg Ecolegol

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion am y wybodaeth y dylid ei chynnwys ym mhob adroddiad ar arolwg ecolegol a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio. Mae Tablau 2-5 yn nodi'r gofynion o ran rhywogaethau a chynefinoedd penodol.

Cyn cychwyn ar unrhyw waith, a fyddech gystal â sicrhau bod pob gwaith arolwg (Rhywogaethau a Warchodir, Cam 1, Cod Cartrefi Cynaliadwy) wedi'i ystyried a'i gydgysylltu. Dylai arolygon amlygu polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a chadw at y gofynion a nodir yn Neddfwriaeth Ewrop.

**A fyddech gystal â bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd mewn rhai achosion y bydd angen gofyn am arolygon ychwanegol neu wybodaeth bellach**.

| **Tabl 1: Adroddiadau ar Arolwg Ecolegol** | **Rhestr wirio** |
|---|---|
| Cofiwch sicrhau eich bod wedi ystyried cwmpas yr arolwg a bod yr arolwg cywir yn cael ei wneud - Rhywogaethau a Warchodir / Cam 1 / Cod Cartrefi Cynaliadwy. | |
| Mae'r asiant/pensaer/datblygwr a'r ymgeisydd i lofnodi'r ymwadiad sy'n datgan eu bod wedi darllen a deall yr adroddiad arolwg: **Yr wyf i, [enw], yn cydnabod fy mod wedi derbyn yr arolwg ecolegol dyddiedig [dyddiad] sy'n ymwneud â [cyfeiriad]. Yr wyf wedi darllen y cynnwys ac yn deall fy rhwymedigaethau cyfreithiol o ran y rhywogaethau a'r cynefinoedd a warchodir a all fod yn bresennol yn y cyfeiriad hwn. [Llofnodwyd].** | |
| Enw'r syrfëwr, cymwysterau, aelodaeth broffesiynol (lle bo'n gymwys), profiad a thrwydded EPS berthnasol (lle bo'n gymwys). | |
| Crynodeb gweithredol sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol, argymhellion (gan gynnwys mesurau lliniaru) a nodi os oes gofyn gwneud arolygon pellach (**mewn print trwm**). | |
| Cyflwyniad a chrynodeb o'r safle (enw'r safle, cyfeirnod grid, plan o leoliad y safle, dyddiad yr arolwg). | |
| Astudiaeth desg (i gynnwys crynodeb o chwiliad data Canolfan Cofnodion Lleol – Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru). | |
| Methodoleg yr Arolwg (croesgyfeirio â'r canllawiau a ddilynwyd, cyfiawnhad dros ddefnyddio'r dull, yr offer a ddefnyddir, cyfyngiadau). | |
| Disgrifiad o'r safle (i gynnwys nodweddion penodol o ddiddordeb a chynefinoedd perthnasol sy'n cyd-ffinio). | |
| Canlyniadau'r arolwg (i gynnwys enw gwyddonol y rhywogaeth, y nifer a ddarganfuwyd (os yn gymwys), enw'r cofnodydd, dyddiad cofnodi, amgylchiadau'r tywydd, dyddiad, amser yr arolwg, cyfnod yr arolwg). | |
| Map sy'n crynhoi'r cofnodion o rywogaethau a chynefinoedd (i gynnwys Cynefin Cam 1 / codau NVC). | |
| Gwerthusiad cyffredinol o'r safle, cynefinoedd a rhywogaethau yn eu cyd-destun ecolegol a ffisegol ac yn ôl statws mewn deddfwriaeth (EPS, LBAP). | |
| Asesiad o effaith/effeithiau posibl y datblygiad (i gynnwys effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol, adeiladu, defnydd parhaus, effeithiau tymor byr a hir) ar y safle, rhywogaethau a chynefinoedd sy'n cyd-ffinio, a'r modd y gellir osgoi, lleihau neu gydbwyso'r effeithiau. | |
| Argymhellion (i gynnwys manylion am y bwriad i liniaru, cydbwyso a gwella, a datganiad dulliau e.e. amseru). **Noder yn glir** pa argymhellion sy'n orfodol a noder y camau sydd i'w cymryd gan yr asiant/datblygwr/ymgeisydd o ran y cais cynllunio (gan sicrhau bod y lliniaru a/neu'r cydbwyso yn cael eu trosi ar y lluniadau pensaernïol). | |

| **Tabl 2: Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop: Ystlumod** | **Rhestr wirio** |
|---|---|
| Disgrifiad o'r adeilad/adeiledd, coed/cloddiau, cynefin/safle sy'n cyd-ffinio, coridorau sy'n cysylltu nodweddion y cynefinoedd ac asesiad cyffredinol o bosibiliadau'r safle i gynnal ystlumod yn allanol ac yn fewnol (dylid cynnwys dyluniadau neu luniau). | |
| Crynodeb o dystiolaeth ystlumod a welwyd (megis nifer/math o faw, staen) a chasgliadau (megis y math o glwydo). | |
| Planiau sy'n dangos lleoliad y dystiolaeth (megis nodweddion addas, clwydo a glustnodwyd, mannau mynediad, llinellau hedfan, goleu-samplu, ardaloedd heidio). | |
| Strategaeth fanwl ar fesurau lliniaru a/neu fesurau cydbwyso sy'n benodol i'r datblygiad, wedi'i thargedu i'r rhywogaethau a'r math o glwydo a ddarganfuwyd (i gynnwys datganiad dulliau sy'n rhoi manylion am amseru, tirweddu/plannu, goleuo, trefn y gwaith). **Rhaid trafod hyn gyda'r pensaer/asiant a'i gynnwys ar y lluniadau pensaernïol (dimensiwn, lleoliad y mannau mynediad, deunyddiau, gwelliannau).** | |
| Asesu a chynghori ar yr angen am gael trwydded EPS. | |

| **Tabl 3: Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop: Dyfrgwn** | **Rhestr wirio** |
|---|---|
| Asesu pa mor addas yw'r safle ar gyfer dyfrgwn, crynodeb o'r dystiolaeth o weithgaredd dyfrgwn a'u defnydd o'r safle (e.e. lleoliad baw'r dyfrgwn, sglefrau allanfa/ mynedfa), adroddiad glaw am y ddau ddiwrnod blaenorol a diwrnod(au)'r arolwg ac amserau'r llanw lle bo'n briodol. | |

| **Tabl 4: Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad – Rhywogaethau: Ymlusgiaid** | **Rhestr wirio** |
|---|---|
| Asesu pa mor addas yw'r safle ar gyfer ymlusgiaid. Canlyniadau i gynnwys gwybodaeth am y tywydd (cyfredol a'r ddau ddiwrnod blaenorol), amserau codiad haul a'r machlud, plan sy'n dangos yn fras leoliad teils yr arolwg a'r cyfiawnhad dros y nifer/lleoliad. | |

| **Tabl 5: Safleoedd Ewropeaidd a Chenedlaethol (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs)** | **Rhestr wirio** |
|---|---|
| Mae posibilrwydd i'r datblygiad gael effaith ar safleoedd a warchodir neu nodweddion safleoedd a warchodir e.e. rhywogaethau symudol megis ystlumod neu ddyfrgwn. Bydd yr Awdurdod Cynllunio yn ystyried hyn wrth benderfynu ar gais cynllunio ac o bosibl bydd angen gwneud Prawf ar yr 'Effaith Arwyddocaol Debygol' o dan Reoliad 61 o'r Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Er mwyn gallu gwneud hyn bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio gael gwybodaeth ddigonol a pherthnasol. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r lefel o wybodaeth sy'n ofynnol, gofynnwch am gyngor oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, CCGC neu cyfeiriwch at gynllun rheoli craidd ACA/AGA. | |

**Gwefannau defnyddiol:**

www.ieem.net/surveymethods.asp    www.naturalresourceswales.gov.uk

http://roost.bats.org.uk/    www.wwbic.org.uk    www.biodiversityplanningtoolkit.com

Trwyddedau EPS (gan gynnwys Ystlumod, Dyfrgwn a Phathewod)
http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/protected-species-licensing/european-protected-species-licensing/bats/?lang=en